Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2675A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 8

Rheoli adnoddau ariannol 23

Atodiadau

Atodiad 1 – argymhellion blaenorol eraill 27

Atodiad 2 – ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 29

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam dau o waith asesu strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol yn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2021 (cam un) drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a sut mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Roedd pandemig COVID-19 yn gofyn i gyrff y GIG addasu yn gyflym eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau y cymerwyd camau amserol i ymateb i'r cynnydd yn y galw brys oherwydd COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2020 drefniadau llywodraethu diwygiedig y Bwrdd Iechyd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau cyfredol a gyflwynir gan COVID-19, gan ddechrau datblygu cynlluniau hefyd i ailgyflwyno ac adfer y gwasanaethau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt. Felly, cynlluniwyd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2021 yng nghyd-destun yr ymateb cyfredol i'r pandemig, gan sicrhau dull pragmatig addas o helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a chan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Ystyriodd cam dau ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2021 sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae pwyslais allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae'r busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi ei adfer a sut mae dysg o'r pandemig yn llywio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu da a sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o waith craffu'r Bwrdd ar y broses o ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol 2021-22 y Bwrdd Iechyd.

5 Rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu ag unrhyw feysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol a'i fod wedi datblygu cynlluniau ar gyfer adferiad yn sgil COVID-19. Fodd bynnag, mae adfer gwasanaethau arferol, sicrhau**

**arbedion ariannol angenrheidiol, ac ymateb yn llawn i adolygiadau allanol beirniadol yn peri heriau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.**

7 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer adfer a mynd i'r afael ag ôl-groniadau cleifion, bydd ymateb i COVID-19 ac adfer gwasanaethau arferol yn parhau i fod yn heriol. Amlygwyd yn ddiweddar fod nifer o wasanaethau yn bryder, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei hun nad yw'r materion hyn yn fwy helaeth. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr hyn y gellir ei gyflawni, a nodir mewn cynlluniau gweithredu, yn benodol, yn fesuradwy ac yn gyfyngedig o ran amser fel y gellir craffu'n effeithiol ar y broses o'u cyflawni.

8 Mae'r trefniadau rheoli risgiau wedi gwella, er bod rhagor o waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn galluogi craffu'n dda ar risgiau strategol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o adolygiadau allanol sy'n edrych ar drefniadau llywodraethu ansawdd a gwasanaethau mamolaeth. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth glinigol, a diwylliant sefydliadol.

9 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21, ond bydd cyflawni'r arbedion angenrheidiol yn 2021-22 yn heriol. Yn gyffredinol, mae rheolaethau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol, ond mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ychwanegol.

# Argymhellion

10 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 2**, a fydd yn cael ei gwblhau ar ôl i'r adroddiad ac ymateb y rheolwyr gael eu hystyried gan y pwyllgor perthnasol.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

| Argymhellion |
|---|
| **Eglurder ar statws busnes gohiriedig y Bwrdd**<br>A1 Canfu ein hadolygiad nad yw pob pwyllgor yn rhoi eglurder ar statws eitemau gohiriedig busnes y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob pwyllgor yn glir ynghylch statws cyfredol eitemau busnes gohiriedig, ag amserlen ddangosol ar gyfer pryd y byddant yn cael eu dwyn yn ôl i reolaeth weithredol. |

**Argymhellion**

**Adolygiad Grŵp Ardal Integredig**

A2 Dirprwyir gweithgarwch trawsnewid a gwella sylweddol i Grwpiau Ardal Integredig y Bwrdd Iechyd. Yn rhan o'i adolygiad o'i fodel gweithredu, dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso capasiti a gallu pob Grŵp Ardal Integredig i gyflawni maint y newid sydd ei angen.

**Rhaglen Adfer Gofal wedi'i Gynllunio**

A3 Mae Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu gweithgarwch, lleihau amseroedd aros, a gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau. Canfuom, er y darperir gwybodaeth gryno i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, nad oedd yn ddigon clir. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddarparu rhagor o fanylion am y cynnydd cyfredol o'i gymharu â'r broses o gyflawni'r Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio o'i gymharu â'r targedau a bennwyd a'r gweithgarwch disgwyliedig.

**Risgiau Strategol**

A4 Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo chwe risg i gyflawni blaenoriaethau strategol sy'n gyson â'r pedwar amcan llesiant strategol a chenedlaethau'r dyfodol a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2021-22 y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, gyda dim ond chwe risg strategol, mae'n bosibl eu bod yn rhy uchel i ganiatáu gwaith craffu ystyrlon. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau hefyd fod ei risgiau strategol yn adlewyrchu'r risgiau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol, y Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio, camau gweithredu i fynd i'r afael â statws ei fesurau arbennig a'i ymyrraeth wedi'i thargedu a'r cyfeiriad teithio i'w nodi yn y strategaeth hirdymor sy'n dod i'r amlwg.

**Y niwed Uniongyrchol ac Anuniongyrchol sy'n deillio o COVID-19**

A5 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith penodol o ran marwolaethau a niwed mewn cysylltiad â COVID-19. Fodd bynnag, fel Byrddau Iechyd eraill, nid yw wedi cwblhau fframwaith safonol i gefnogi'r asesiad o niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19 eto. Dylai'r Bwrdd Iechyd lunio fframwaith ar gyfer asesu'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n deillio COVID-19, a sicrhau bod y fframwaith ac adroddiad cysylltiedig sy'n amlinellu materion allweddol yn cael eu monitro gan grwpiau gweithredol strategol, priodol a'u bod yn adrodd ar y Bwrdd neu un o'i bwyllgorau.

**Argymhellion**

**Cyflog Amrywiol Meddygol**

A6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd amrywiannau pan delir locwm asiantaethau uwchben cyfradd cap cyflog Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rheswm dros dalu cyfradd sy'n uwch na'r cap cyflog wedi ei gofnodi ym mwyafrif y cofnodion. Nid yw'n glir ychwaith a ddilynwyd yr awdurdodiad cywir ar gyfer pob lleoliad. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r adroddiad i roi sicrwydd bod y gymeradwyaeth gywir wedi ei chyflawni, ynghylch cyfanswm costau'r penodiad, a yw'r lleoliad yn estyniad o leoliad blaenorol, a nodi'r rheswm pam fo'r cap cyflog wedi ei dorri.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd wrth iddo barhau i ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig.

12 Canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol a'i fod wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer adfer a mynd i'r afael ag ôl-groniadau cleifion. Fodd bynnag, bydd adfer gwasanaethau arferol yn parhau i fod yn heriol. Gwneir cynnydd o ran mynd i'r afael ag adolygiadau allanol beirniadol sy'n allweddol, ond mae gwaith mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn llawn o hyd, a mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â diwylliant ac arweinyddiaeth glinigol.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

13 Canfuom **yn gyffredinol fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol. Ceir rhai swyddogaethau interim mewn swyddi gweithredol allweddol, ond mae cynlluniau i gynnal gwaith recriwtio sylweddol ar waith. Bydd angen rheoli trosiant Aelodau Annibynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y bwrdd a pharhad busnes. Mae angen i adroddiadau perfformiad gael eu cysoni'n well â chynlluniau a blaenoriaethau y Bwrdd Iechyd.**

#### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

14 Cynhelir cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau ar ffurf rithwir, ac mae'r aelodau'n bresennol o bell. Caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu darlledu'n fyw, ac mae recordiadau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl pob cyfarfod. Fodd bynnag, dim ond yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i ofyn cwestiynau, ac nid flaen nac yn ystod cyfarfodydd arferol y Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi ychwanegu cyfeiriad e-bost yn ddiweddar y gall aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu ymholiadau. Ar adeg yr adolygiad hwn, nid oedd unrhyw gynlluniau i ffrydio cyfarfodydd pwyllgor y Bwrdd yn fyw.

15 Nododd ein hadroddiad asesu strwythuredig y llynedd sut y symleiddiodd y Bwrdd Iechyd gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ym mis Mawrth 2020 i ymateb i COVID-19, er mwyn canolbwyntio ar faterion busnes hanfodol. Ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, rhoes pob cyfarfod pwyllgor y gorau i weithredu[1]. Canfuom fod y trefniadau dros dro hyn yn gweithio'n dda ac fe'u hadolygwyd yn gyson gan y Bwrdd Iechyd.

[1] Nodwyd y newidiadau dros dro mewn rheolau sefydlog diwygiedig ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd.

## Trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau

16 Yn ystod yr haf hyd at hydref 2020, adferwyd holl gyfarfodydd pwyllgor y Bwrdd. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd y broses o ddychwelyd i'r un trefniadau pwyllgor symlach a nodir ym **mharagraff 14**, er mwyn helpu'r ymateb i ail frig COVID-19. Fodd bynnag, cyfarfu'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ym mis Chwefror 2021 i ystyried datblygiad y Cynllun Blynyddol drafft a'r cynllun ariannol sy'n sail iddo. Cynyddwyd amlder cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn sicrhau pwyslais ar faterion busnes hanfodol. Cafodd pob pwyllgor a roes y gorau i weithredu ei adfer ar 1 Mawrth 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adfer ei strwythur ymateb brys ers mis Gorffennaf 2021 oherwydd nifer uchel o achosion COVID-19, fodd bynnag, nid yw hyn wedi effeithio ar strwythurau presennol y pwyllgorau na'i fusnes.

17 Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau fod cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda ac yn caniatáu trafodaethau â phwyslais ar faterion allweddol, ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn cyfrannu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw'r defnydd o'r agenda cydsyniad[2], ac mae hyn yn helpu i reoli'r rhan fwyaf o lwyth gwaith pwyllgorau. Mae'r eitemau ar yr agenda cydsyniad yn briodol, a gall y rhai sy'n bresennol ofyn am waith craffu manwl ar eitemau pan maent yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.

18 Fel gyda Byrddau Iechyd eraill, mae agenda y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn fawr. O ganlyniad i hynny, nid yw rhai eitemau sydd ymhellach i lawr ar yr agenda, megis y Gofrestr Risgiau, yn cael eu trafod yn fanwl oherwydd bod y Pwyllgor yn ei chael yn anodd symud ymlaen drwy bob eitem o fewn amserlen y cyfarfod. Er hynny, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi aildrefnu agendâu yn ddiweddar drwy roi eitemau i'w sicrhau ar ddechrau'r cyfarfodydd. Mewn cyrff iechyd eraill, rydym wedi sylwi bod aildrefnu agendâu fel hyn yn darparu pwyslais ac yn helpu i reoli lefelau amser ac egni mewn cyfarfodydd, er mwyn galluogi gwaith craffu da pan fo ei angen fwyaf.

## Gwybodaeth am y Bwrdd a'r pwyllgorau

19 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwybodaeth am berfformiad sy'n hygyrch ac o ansawdd uchel i'r Bwrdd a'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn craffu ar y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig ym mhob cyfarfod. Nodwn fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu'r dangosfwrdd hwn (gweler **Arddangosyn 2, 2019 A3**). Mae'r dangosfwrdd yn gyson â Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Cymru, pedwar nod Cymru Iachach, a phedwar amcan strategol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ar ei phen ei hun y cyflwynir gwybodaeth am berfformiad yn y dangosfwrdd, ac felly nid

[2] Eitemau y grwpiau agenda cydsyniad sy'n arferol, yn weithdrefnol, yn wybodaethol ac yn hunaneglurhaol nad ydynt yn ddadleuol. Rhoddir cyfle i'r aelodau symud unrhyw eitemau allan o'r agenda cydsyniad os ydynt yn teimlo bod angen trafodaeth fanwl arnynt.

yw'n disgrifio'r broses o gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Blynyddol na chynlluniau eraill y Bwrdd Iechyd, megis mae'r Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn gwella perfformiad neu'n cael yr effaith a ddymunir. Rhoes adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Awst 2021 ar Ansawdd Data ac Uniondeb gwybodaeth am y Llwybr Canser Sengl sicrwydd cyfyngedig, gan dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chywirdeb a chyflawnrwydd y data perfformiad a gofnodwyd. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at absenoldeb polisi neu strategaeth gorfforaethol ynghylch ansawdd data. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd strategaeth perfformiad a gwybodaeth glinigol yn cael ei datblygu, a fydd yn cynnwys safonau ansawdd data gofynnol.

20 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y gellid gwella ansawdd adroddiadau llafar ac ysgrifenedig i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi datblygu hyfforddiant ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau i'r staff sy'n paratoi ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Dechreuodd yr hyfforddiant ddiwedd haf 2021 ac mae'n parhau i gael ei ddarparu'n rheolaidd.

21 O ganlyniad i COVID-19, roedd yn angenrheidiol gohirio rhai eitemau o fusnes y Bwrdd a'r pwyllgorau er mwyn sicrhau bod digon o amser i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig. Nododd ein hadolygiad o'r blaengynlluniau ar gyfer y pwyllgorau rai anghysondebau wrth egluro statws eitemau gohiriedig, felly nid yw'n glir a yw'r holl eitemau gohiriedig wedi eu dwyn yn ôl i reolaeth weithredol. Er enghraifft, nid yw blaengynllun gwaith y Pwyllgor Digidol a Data yn glir ar statws presennol eitemau gohiriedig. Canfuom fod pwyllgorau eraill, er enghraifft, Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl, yn rhoi gwell eglurder ar statws eitemau gohiriedig. Mae angen i bob pwyllgor sicrhau bod eglurder ynghylch statws eitemau busnes gohiriedig, gan gynnwys syniad pryd y bydd eitemau gohiriedig yn cael eu dwyn yn ôl i reolaeth weithredol (**Argymhelliad 1**).

22 Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at adroddiadau i'r Bwrdd sydd wedi eu cryfhau ac yn mynegi gwaith y pwyllgorau'n glir ac yn nodi meysydd i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd. Hefyd, mae rhagor o waith wedi ei wneud eleni i gryfhau datganiadau o fuddiant, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bellach fod yr holl ymgynghorwyr a'r staff sydd mewn swyddi Band 8a ac uwch yn cwblhau'r gofrestr. Caiff datganiadau o fuddiant eu trafod a'u cadarnhau mewn cyfarfodydd arfarnu perfformiad hefyd. Ar adeg ein hadolygiad, roedd holl aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau eu datganiadau, er bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith wedi ei dargedu i wella cydymffurfio mewn grwpiau staff eraill, gyda'r cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg[3].

[3] 22% oedd cyfradd yr ymgynghorwyr a'r gweithlu mewn swyddi Band 8a ac uwch a oedd wedi ymateb ym mis Medi 2021.

**Arddangosyn 2: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Trefniadau Rheoli Perfformiad 2019 A3**<br>Canfuom fod y broses monitro perfformiad yn gadarn ac yn gynhwysfawr, ond y gellid gwneud rhai gwelliannau i'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu fformat a darllenadwyedd y dangosfwrdd perfformiad a adroddir i'r Bwrdd a'r is-bwyllgorau ar hyn o bryd er mwyn tynnu sylw at welliannau neu waethygiadau perfformiad fel y gellir craffu yn fwy effeithiol â mwy o dryloywder. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau i'w ddangosfwrdd perfformiad, gan gynnwys cyflwyno cerdyn sgorio cytbwys a statws coch melyn gwyrdd, sy'n ei gwneud yn gliriach pan fo'r perfformiad yn mynd oddi ar y trywydd cywir. Mae Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad manwl o'r broses o lunio adroddiadau rheoli perfformiad ar ddiwedd 2021. |

## Ymrwymiad y Bwrdd i welliant parhaus

23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiadau cynhwysfawr o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Cwblheir arolygon electronig gan y rhai sy'n bresennol, ac mae tystiolaeth o gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â phryderon a godir gan y Bwrdd.

24 Ym mis Hydref 2020, cwblhaodd Archwilio Mewnol adolygiad ymgynghorol o drefniadau llywodraethu COVID-19 y Bwrdd Iechyd. Noda'r adroddiad feysydd i'w gwella. Ym mis Mawrth 2021, canfu adolygiad dilynol Archwilio Mewnol fod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu bron pob blaenoriaeth a gynghorir yn yr adolygiad gwreiddiol, a phan oedd camau nas cymerwyd, roedd hyn oherwydd ffactorau allanol, megis aros am ganlyniad adolygiadau cenedlaethol. O ganlyniad i'r adolygiad, gwnaed gwelliannau i'r log penderfyniadau gorchymyn aur gorchymyn brys, a chynyddwyd amlder cyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn amserol. Hefyd, dechreuodd y Bwrdd Iechyd gofnodi sesiynau cyfarwyddo anffurfiol ag aelodau annibynnol, er mwyn galluogi'r rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol i gael y cyfle i ddal i fyny ar drafodaethau.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd yn profi newid sylweddol yn ei garfan aelodau annibynnol; yn ddiweddar, penodwyd Cadeirydd newydd[4] (Medi 2021), Is-gadeirydd newydd (Mehefin 2021) a Chadeirydd newydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (Mawrth 2021). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi recriwtio aelod annibynnol newydd o'r brifysgol yn ddiweddar (Awst 2021) a phenodwyd aelod annibynnol arall yn ddiweddar (Hydref

[4] Mae'r swydd hon wedi ei llenwi drwy Benodiad Gweinidogol am gyfnod o 18 mis.

2021). Ar hyn o bryd, mae un swydd wag ar lefel yr aelodau annibynnol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod rhaglen datblygu'r Bwrdd yn briodol i helpu aelodau annibynnol newydd i fynd i'w swyddogaethau yn rhwydd.

## Sicrhau bod y cynllun sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

26 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o'i strwythur rheoli ymateb brys i COVID-19 a ddefnyddiwyd rhwng mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021. Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Rheoli ym mis Mai 2021 ac fe'i rhannwyd ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar ymateb y Bwrdd Iechyd ac mae'n nodi meysydd dysgu, a chynllun gweithredu dilynol ar gyfer gweithredu. Mae'r meysydd gweithredu'n cynnwys egluro trothwy'r sbardun ar gyfer sefydlu/diddymu'r strwythur rheoli ymateb brys, cynyddu cymorth gweinyddol a diweddaru cynllun ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig. Mae pob un o'r meysydd hyn wedi eu dyrannu i swyddog gweithredol arweiniol i fynd i'r afael â nhw. Roedd egluro trothwyon y sbardun yn ddefnyddiol i'r Bwrdd Iechyd, wrth i'r Bwrdd Iechyd ddychwelyd i'r strwythur rheoli ymateb brys ar 28 Gorffennaf 2021. Nid oedd unrhyw newidiadau i strwythurau pwyllgorau y Bwrdd Iechyd ar y pryd, fodd bynnag, roedd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

27 Mae nifer o benodiadau newydd ac interim ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol. Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd benodiadau interim mewn swyddogaethau allweddol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Meddygol, a'r Prif Swyddog Gweithredu. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dechrau recriwtio ar gyfer swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Prif Swyddog Gweithredu yn fuan. Gwnaed penodiad cyfnod penodol ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd, ac mae hwn yn benodiad ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ym mis Mehefin 2021, penodwyd Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid newydd, gan ddisodli'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad blaenorol, ac ym mis Awst 2021, penodwyd Cyfarwyddwr Cyllid newydd. Hefyd, dechreuodd Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol newydd â'r Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi penodi Cyfarwyddwr Gwella sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio (sy'n gyfrifol am raglen Gwella CTM y Bwrdd Iechyd[5]) a Chyfarwyddwr Digidol ar lefel Bwrdd a fydd yn dechrau â'r Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r newidiadau ar lefel weithredol ac anweithredol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer meddwl o'r newydd a syniadau newydd, ond maent hefyd yn her o ran cynnal parhad busnes a chydlyniad y bwrdd.

[5] 'Gwella CTM' yw enw rhaglen wella y Bwrdd Iechyd.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[6]

28 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer adfer a mynd i'r afael ag ôl-groniadau cleifion, fodd bynnag, bydd ymateb i COVID-19 ac adfer gwasanaethau arferol yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae adolygiadau diweddar wedi amlygu heriau sylweddol mewn meysydd gwasanaeth allweddol, ac mae angen sicrhau nad yw'r materion hyn yn fwy cyffredin. Mae angen rhagor o waith i gynllunio prif gyflawniadau posibl y blaenoriaethau strategol a nodir yn y Cynllun Blynyddol a sicrhau bod gan y cyflawniadau posibl allweddol gerrig milltir penodol, mesuradwy ac sy'n gyfyngedig o ran amser er mwyn gwella'r gallu i fonitro cynnydd yr hyn a gyflawnir.**

29 Mae adferiad yn sgil COVID-19 yn her sylweddol i bob sefydliad gofal iechyd. Mae COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar boblogaeth y Bwrdd Iechyd, ac ar adegau, cyfradd haint COVID-19 yn ôl troed y Bwrdd Iechyd oedd yr uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei Gynllun Blynyddol 2021-22 (y Cynllun Blynyddol), a Chynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio sy'n nodi sut y caiff gweithgarwch ei wneud i'r eithaf er mwyn cefnogi'r broses adfer.

30 Trafododd y Bwrdd Gynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd yng nghyfarfod Bwrdd y pwyllgor ym mis Mawrth 2021, gan ei gymeradwyo yn amodol ar welliannau a ddogfennir. Gwnaethom arsylwi'r Bwrdd yn craffu'n drylwyr ar y Cynllun Blynyddol. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Blynyddol terfynol ym mis Gorffennaf 2021, yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ym mis Mehefin 2021. Roedd y gymeradwyaeth yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru.

31 Roedd sylwadau Llywodraeth Cymru ar y drafft yn gofyn am gynnwys y cyflawniadau posibl allweddol a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni yn y Cynllun Blynyddol terfynol. Er i'r Bwrdd Iechyd ychwanegu'r cyflawniadau posibl allweddol, ni nododd amserlen benodol ar gyfer eu cyflawni. Yn ogystal â hynny, nid yw pob cyflawniad posibl yn gyson ag un neu fwy o'r chwe blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Blynyddol. Argymhella ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig Cam 1 2021 hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn nodi cyflawniadau posibl penodol, mesuradwy ac sy'n gyfyngedig o ran amser yn ei gynlluniau fel y gellir adrodd yn effeithiol ar y cynnydd o'i gymharu â'i gyflawni, a'r effaith a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny (**Arddangosyn 3, 2021 A1**).

32 Argymhella ein hadroddiad Cam 1 hefyd fod angen i'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb am oruchwyliaeth strategol er mwyn monitro'r gwaith o gyflawni ei

[6] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Cafodd y broses Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023 ei gohirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, er mwyn caniatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd yn ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Ystyria ein hadroddiad o gam un asesiad strwythuredig 2021 drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd.

gynlluniau (**Arddangosyn 3, 2021 A2**). Ym mis Awst 2021, adroddwyd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â'r cyflawniadau posibl allweddol yn y Cynllun Blynyddol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sylwadau cryno lefel uchel ar y cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r hyn y gellir ei gyflawni. Mae hyn yn ymwneud â'r mater a nodir ym **mharagraff 31**, sef nad yw'r hyn y gellir ei gyflawni yn benodol nac yn fesuradwy, sy'n gwneud y dasg o adrodd am gynnydd yn fanwl, yn anodd. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth ychwaith o adolygiad o'r cynnydd o'i gymharu â Chynllun Chwarter 3 a 4 2020-21, nac unrhyw gadarnhad a drosglwyddwyd y cyflawniadau posibl o'r cynllun hwnnw nad oeddent wedi eu cyflawni i'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi yn ei raglen wella, sef 'Gwella CTM', ac erbyn hyn mae Cyfarwyddwr Gwella yn ei swydd. Yn ystod 2022, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu rhaglen waith â phedwar nod allweddol; cydlynu a chyfleu gwelliant, nodi cyfleoedd newydd ar gyfer gwelliannau; datblygu'r gallu i gyflawni gwelliannau yn y system a'r gweithlu, a meithrin a chydnabod cymunedau o arferion gwella. Ar hyn o bryd, dirprwyir gweithgarwch trawsnewid a gwella sylweddol i'r Grwpiau Ardal Integredig, ac mae pryderon ynghylch eu gallu i gyflawni newid ar y raddfa sy'n ofynnol, yn enwedig o ystyried y pwysau gweithredol presennol (**Argymhelliad 2**). Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu gweithrediad y model gweithredu newydd, a disgwylir y bydd adroddiad wedi ei gyflwyno erbyn mis Rhagfyr 2021.

34 Yn ystod haf 2021, adolygodd y Bwrdd Iechyd ei gyfeiriad strategol a dechreuodd y gwaith o ddatblygu strategaeth sefydliadol hirdymor, 'CTM2030: Ein Hiechyd, ein Dyfodol', gan gynnwys strategaeth gwasanaeth clinigol newydd, 'CTM2030: Gwasanaethau Clinigol'. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys cynnal sesiynau datblygu strategaeth ag aelodau annibynnol ac arweinwyr clinigol ac anghlinigol y Bwrdd Iechyd. Bu'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ym mis Medi 2021. Bwriad presennol y Bwrdd Iechyd yw cwblhau'r ddwy strategaeth erbyn mis Ebrill 2022, er bod pwysau sy'n deillio o COVID-19 yn risg i'r amserlen honno.

35 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld twf sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros am ofal dewisol, gan barhau i ymateb i anghenion cleifion sydd â COVID-19. Yn ystod y pandemig, bu twf sylweddol yn yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac amseroedd aros diagnostig. Mae Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu gweithgarwch, lleihau amseroedd aros, a gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau. Yn 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru £16.8 miliwn o gyllid ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd i gadarnhau rhestrau aros, i ehangu'r capasiti mewnol drwy sesiynau ychwanegol, i ddarparu amrywiaeth o driniaethau gofal sylfaenol ac i drefnu rhywfaint o weithgarwch ar gontractau allanol. Mae pob agwedd ar y gwaith adfer gofal arfaethedig yn cael ei neilltuo i arweinydd gweithredol a chaiff y cynnydd ei fonitro'n wythnosol a'i adrodd i'r Bwrdd Rheoli fel mater o drefn. Fodd bynnag, er y darperir gwybodaeth gryno i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, nid yw'r

adroddiadau ar gynnydd yn ddigon clir i alluogi gwaith craffu a sicrhau llawn (**Argymhelliad 3**). Hyd yn oed pe bai'r Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn cael ei gyflawni'n llawn, byddai bwlch capasiti o hyd o'i gymharu â'r galw am weithgareddau cleifion allanol a llawfeddygol. Yng nghyfarfod mis Medi 2021 y Bwrdd, nodwyd bod pwysau COVID-19 ar safleoedd acíwt yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei raglen adfer gofal arfaethedig fel y'i hamlinellwyd. Cydnabyddir bod y cynnydd yn nifer y cleifion COVID-19 mewn ysbytai acíwt yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r gofod hwn ar gyfer gweithgarwch dewisol arfaethedig.

36 Hefyd, codwyd pryderon am wasanaethau ac ansawdd mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Dengys yr wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar amseroedd aros offthalmoleg ym mis Awst 2021 fod gan y Bwrdd Iechyd nifer sylweddol o gleifion R1[7]. Hefyd, mae adolygiad Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a gynhelir yn y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. Cododd arolygiad ym mis Medi 2021 gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn adran achosion brys Ysbyty'r Tywysog Siarl bryderon sylweddol ynghylch arferion a glendid. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi tynnu sylw hefyd at bryderon difrifol o ran darparu rhai gwasanaethau iechyd meddwl ar draws y Bwrdd Iechyd mewn cyfres o arolygiadau o 2019 ymlaen. Ym mis Mehefin 2021, cododd Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru Dŷ Llidiard[8] i'r lefel uwchgyfeirio uchaf er mwyn adlewyrchu eu pryderon ynghylch methiant yr uned i ddatrys ei threfniadau ymateb brys ar y safle a'i methiant i fynd i'r afael â sylwadau rhanddeiliaid mewn cysylltiad â diwylliant ac arweinyddiaeth. Er bod cynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r materion a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn yr adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn briodol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn ehangu ei bwyslais ac yn cael sicrwydd nad yw'r un materion yn amlwg mewn safleoedd Adrannau Brys eraill yn y Bwrdd Iechyd.

[7] Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd bob mis i Lywodraeth Cymru o'i gymharu â'i 'Fesurau Gofal Llygaid', gan adrodd nifer y cleifion o'u cymharu ag R1 (risg o niwed na ellir ei wrthdroi neu ganlyniad andwyol sylweddol i glaf os methir y dyddiad targed), R2 (risg o niwed gwrthdroadwy neu ganlyniad andwyol os methir y dyddiad targed) ac R3 (dim risg o niwed sylweddol na chanlyniad andwyol).

[8] Uned iechyd meddwl i'r glasoed yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr.

**Arddangosyn 3: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Strwythuredig Cam 1 2021 A1**<br>Yn ystod ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2021, canfuom nad oedd Cynllun Chwarter 3-4 yn pennu targedau na cherrig milltir mesuradwy penodol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynlluniau blynyddol yn nodi targedau a cherrig milltir clir ac yn sicrhau adroddiadau effeithiol ar gynnydd, effaith a chanlyniadau. | **Anorffenedig**<br>Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi'r cyflawniadau posibl allweddol, fodd bynnag, nid yw'n benodol nac yn fesuradwy ar y cyfan ac nid yw'n cynnwys carreg filltir benodol ar gyfer cyflawni na mynegi'r canlyniad a fwriedir. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd asesu'r cynnydd a gyflawnir. |
| **Asesiad Strwythuredig Cam 1 2021 A2**<br>Yn ystod ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2021, ni chanfuom unrhyw waith craffu gan y Bwrdd na'i bwyllgorau ar gyflawniadau'r cynlluniau chwarterol. Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb dros oruchwyliaeth ar lefel strategol o ran monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Blynyddol 2021-22. | **Ar y gweill**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi egluro'r cyfrifoldeb dros fonitro'r modd y cyflawnir Cynllun Blynyddol 2021-22. Bydd y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn gyfrifol am fonitro'r ddarpariaeth. Byddwn yn asesu'r trefniadau yn ein hasesiad strwythuredig nesaf.<br>Fodd bynnag, nid yw wedi derbyn adroddiad eto sy'n nodi'r cynnydd presennol o ran gweithredu'r hyn y gellir ei gyflawni a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2021-22. Disgwyliwn y byddai adroddiad o'r fath gynnwys camau lliniaru pan nad yw'r cynnydd ar y trywydd iawn. |

## Systemau sicrwydd

37 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau i'r trefniadau rheoli risgiau, ond bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd fel y gellir craffu'n effeithiol ar risgiau strategol. Er bod cynnydd wedi ei wneud o ran mynd i'r afael ag argymhellion ar lywodraethu ansawdd a gwasanaethau mamolaeth o adolygiadau allanol, mae angen rhagor o waith i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn llawn.**

## Rheoli risgiau

38 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da i wella trefniadau rheoli risgiau, er bod y gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dal i fynd rhagddo ac mae angen sicrhau bod y risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol yn cael eu mynegi'n briodol.**

39 Canfu ein Hadolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn 2019 fod llawer o staff nad oeddent yn glir am eu cyfrifoldebau na'r broses ar gyfer nodi, adrodd a lliniaru risg. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd hyfforddiant rheoli risgiau ar gael i'r staff. Ers yr adolygiad hwnnw, bu cynnydd sylweddol o ran gwella'r trefniadau rheoli risgiau: rydym yn crynhoi'r cynnydd yn y paragraffau canlynol.

40 Ym mis Ionawr 2021, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth rheoli risgiau ddiwygiedig, polisi rheoli risgiau, a gweithdrefnau asesu risgiau sy'n nodi fframwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli risgiau a threfniadau ategol. Mae pob dogfen yn glir ac yn darparu eglurder ar swyddogaethau a chyfrifoldebau. Cynhaliwyd sesiwn ddatblygu arall gan y Bwrdd ym mis Hydref 2021 i adolygu parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu hyfforddiant rheoli risgiau a alluogir gan gynnydd mewn adnoddau rheoli risgiau corfforaethol. Rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2021, dilynodd dros 240 o aelodau staff yr hyfforddiant[9]. Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg yn gweithio gyda chymheiriaid ar draws GIG Cymru i ffurfio Cymuned Ymarfer Rheoli Risgiau sy'n datblygu modiwlau hyfforddiant risg a fydd yn cael eu rhoi ar y System Rheoli Dysgu.

42 Mae'r broses o oruchwylio a chraffu ar risgiau gweithredol wedi gwella. Creffir ar y gofrestr risgiau sefydliadol ym mhob un o gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd. Mae pwyllgorau eraill, megis y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, yn craffu ar y risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb.

43 Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd. Amlinellodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Awst 2021 y cynnydd a wnaed ar y pryd gan gydnabod bod y Grwpiau Ardal Integredig yn dal i weithio i resymoli a safoni cofrestrau risg y Grŵp Gwasanaethau Clinigol. Yn ei adroddiad Rheoli Risgiau ym mis Ionawr 2021, pwysleisiodd Archwilio Mewnol nad oedd rhai risgiau y Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol i gofrestrau risg y Grŵp Ardal Integredig. Effeithiwyd ar gyflymder y gwaith o fynd i'r afael â'r ddau fater hyn gan bwysau gweithredol sy'n deillio o'r ymateb i COVID-19. Ar adeg ein gwaith,

[9] Datblygodd y Bwrdd Iechyd Sesiwn Hyfforddi Rheoli Risgiau â phwyslais awr o hyd a gynhelir bob mis o fis Ionawr 2021, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg a'r Penaethiaid Ansawdd a Diogelwch yn y Grwpiau Ardal Integredig.

roedd 77 o risgiau ar y gofrestr risgiau sefydliadol[10]. Gyda chynifer o risgiau, mae'n heriol caniatáu digon o amser i graffu.

44 Ar adeg ein gwaith, roedd y Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd.[11] Mae cymorth allanol wedi ei gaffael drwy arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ymyrraeth wedi'i Thargedu[12] i gefnogi a gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd ar Raglen Datblygu Bwrdd bwrpasol a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diwygiedig. Er mai ar gam cynnar y mae'r gwaith ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, yn gadarnhaol, ceir tystiolaeth o ymgysylltu da â staff ar draws y sefydliad i gefnogi ei ddatblygiad. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo chwe risg i gyflawni blaenoriaethau strategol sy'n gyson â'r pedwar amcan llesiant strategol a chenedlaethau'r dyfodol a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2021-22 y Bwrdd Iechyd[13]. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau hefyd fod ei risgiau strategol yn adlewyrchu'r risgiau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol, y Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio, camau gweithredu i fynd i'r afael â statws ei fesurau arbennig a'i ymyrraeth wedi'i thargedu (gweler **paragraff 46**), a'r cyfeiriad teithio i'w nodi yn y strategaeth hirdymor sy'n dod i'r amlwg. Gyda dim ond chwe risg strategol, bydd angen i'r Bwrdd ystyried hefyd a ydynt yn rhy uchel i ganiatáu gwaith craffu ystyrlon. Mae gwaith cynllunio'r rheolaethau a'r ffynonellau sicrwydd o hyd, a'r bwriad yw dod â Fframwaith Sicrwydd Bwrdd drafft i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2022. (Gweler **Argymhelliad 4**).

45 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi mynegi ei fwriad o ddatblygu Adroddiad Sicrwydd Bwrdd a fydd yn nodi'r prif risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol, gan gyfeirio at risgiau gweithredol yn y gofrestr risgiau sefydliadol.

## Sicrhau ansawdd a diogelwch[14]

46 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o adolygiadau allanol sy'n edrych ar drefniadau llywodraethu ansawdd a gwasanaethau mamolaeth, fodd bynnag, mae angen gwneud**

[10] Dylai'r gofrestr risgiau sefydliadol gynnwys y risgiau lefel uchel o bob rhan o'r sefydliad y bernir eu bod yn briodol i gael eu huwchgyfeirio fel y gall y Bwrdd graffu arnynt.

[11] Dogfen allweddol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar y risgiau o ran cyflawni blaenoriaethau strategol, y rheolaethau sydd eu hangen i liniaru risgiau, ffynonellau sicrwydd, swyddogion gweithredol cyfrifol a threfniadau craffu pwyllgorau.

[12] Mae gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn 'mesurau arbennig', ac mae'r sefydliad cyfan mewn 'ymyrraeth wedi'i thargedu' ar gyfer llywodraethu o ansawdd.

[13] Mae Cynllun Blynyddol 2020-21 yn nodi pedwar amcan llesiant strategol a chenedlaethau'r dyfodol a chwe blaenoriaeth strategol benodol y Bwrdd Iechyd.

[14] Rydym wedi cyfyngu ar y gwaith a wnaed gennym ar drefniadau llywodraethu ansawdd yn rhan o'n hasesiad strwythuredig yn 2021 oherwydd cyhoeddiad adroddiad ar y cyd gydag Arolygiad Gofal Iechyd Cymru yn ddiweddar, Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion.

**rhagor o waith i fynd i'r afael ag argymhellion yn llawn, yn enwedig mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth glinigol a diwylliant staff.**

## Adolygiadau gwasanaethau mamolaeth

47 Penododd Llywodraeth Cymru Banel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth i sicrhau yr ymdrinnid ag argymhellion Adroddiad 2019 y Colegau Brenhinol ar Wasanaethau Mamolaeth mewn modd amserol, agored a thryloyw. Hyd yma, mae dau adroddiad wedi eu cynhyrchu gan y panel. Cwblhaodd adroddiad Thematig Rhaglen Adolygu Clinigol mis Ionawr 2021 y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth adolygiad y panel o farwolaethau ac afiachusrwydd mamau, a chyhoeddodd adroddiad Adroddiad Thematig y Categori Marw-enedigaethau ym mis Hydref 2021. Mae dau adroddiad y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wedi tynnu sylw at ffactorau amrywiol a oedd yn effeithio ar y gofal diogel ac effeithiol a ddarperid i famau a'u babanod. Mae'r ddau adroddiad yn adleisio llawer o'r hyn a ddisgrifir gan y Colegau Brenhinol yn eu hadroddiad ac maent yn tynnu sylw at yr angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei Raglen Gwella Mamolaeth a Newyddenedigol parhaus yn mynd i'r afael â'r materion sy'n parhau i gael eu nodi. Canfu'r adroddiad diweddaraf fod rhai o'r materion a nodwyd gan y Colegau Brenhinol mewn cysylltiad â diwylliant, arweinyddiaeth glinigol a chapasiti yn dal i fod yn amlwg.

48 Er bod y Bwrdd Iechyd mewn mesurau arbennig ar gyfer ei wasanaethau mamolaeth, mae hefyd mewn ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer pryderon ynghylch llywodraethu ansawdd ehangach. Mewn ymateb i ymyrraeth wedi'i thargedu, sefydlodd y Bwrdd Iechyd raglen i wneud y gwelliannau angenrheidiol, ac mae'r cynnydd yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ac yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru. Mae swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol yn asesu'r cynnydd o'i gymharu â'r matrics aeddfedrwydd, a digwyddodd yr adolygiad diweddaraf ym mis Mehefin 2021. Ym mis Ebrill 2021, adolygodd Archwilio Mewnol y systemau a'r rheolaethau a oedd ar waith i gyflawni a monitro'r cynnydd mewn cysylltiad â'r rhaglen gwella ymyrraeth wedi'i thargedu. Rhoddodd Archwilio Mewnol farn 'Sicrwydd Rhesymol', gan ddod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu sylfeini da a dull addas o symud o'i statws ymyrraeth wedi'i thargedu.

## Adolygiad ar y Cyd o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

49 Ym mis Tachwedd 2019, gwnaethom gynnal Adolygiad ar y Cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Canfu ein gwaith wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd ar gyfer ansawdd gofal a diogelwch cleifion. Gwnaethom 14 o argymhellion i wella'r ffordd y rheolir risgiau, y modd o ymdrin â digwyddiadau, hawliadau a chwynion (pryderon), diogelwch cleifion a diwylliant sefydliadol.

50 Yn ystod 2020-21, gwnaethom gynnal adolygiad dilynol[15] i asesu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion. Daethom i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion, yn enwedig o ystyried yr heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, er nad oedd rhai camau gweithredu wedi symud ymlaen cyn gynted ag y bwriadai'r Bwrdd Iechyd.

51 Er bod yr adolygiad dilynol wedi nodi bod cynnydd wedi ei wneud, nid oeddem yn gallu nodi bod unrhyw un o'r 14 argymhelliad gwreiddiol wedi eu cwblhau. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar gydgyfrifoldeb dros ansawdd a diogelwch cleifion a thros ymwreiddio trefniadau. Mae gwaith o hyd o ran mynd i'r afael â materion diwylliannol a grymuso ymreolaeth ymhlith clinigwyr. Bu adroddiadau diweddar (gweler **paragraff 34**) sydd hefyd wedi pwysleisio bod angen mynd i'r afael ag arweinyddiaeth glinigol a diwylliant o hyd.

52 Disgrifia ein hadolygiad dilynol y model gweithredu newydd, a weithredwyd ym mis Ebrill 2020. Erbyn hyn, mae tri Grŵp Ardal Integredig, sy'n canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol Merthyr Tudful a Chwm Cynon, Rhondda, Taf-Elái a Phen-y-bont ar Ogwr. Caiff y Grwpiau Ardal Integredig eu harwain yn glinigol a'u cefnogi'n rheolaethol i gryfhau arweinyddiaeth glinigol ac i sicrhau pwyslais ar ansawdd a diogelwch. Mae Grwpiau Gwasanaeth Clinigol yn y Grwpiau Ardal Integredig yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau acíwt, sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl er mwyn diwallu anghenion eu cymunedau lleol.

53 Yn fwy diweddar, ym mis Gorffennaf 2021, gweithredwyd pedwar Grŵp Strategaeth[16] i sicrhau safonau clinigol cyson ar draws y Grwpiau Ardal Integredig, i reoli a gweithredu newidiadau sy'n deillio o gynlluniau cyflawni cenedlaethol ac i wella cydweithrediad ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn gweithredu llwybrau gofal arferion gorau.

54 Ar adeg ein gwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'r model gweithredu newydd er mwyn gwerthuso ei effeithiolrwydd a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag llwyddiant. Disgwylir yr adroddiad ac unrhyw argymhellion dilynol erbyn mis Rhagfyr 2021. Bydd angen i'r adroddiad hwn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i sicrhau arweinyddiaeth glinigol briodol ar gyfer ansawdd a diogelwch, mewn Grwpiau Ardal Integredig ac ar draws y sefydliad.

### Niwed yn deillio o COVID-19

55 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn nodi'n glir yr heriau o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n deillio o'r pandemig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y cydbwysedd o barhau i ymateb i anghenion cleifion sydd â COVID-

[15] Adolygiad o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Iechyd y Brifysgol: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion.

[16] Y Grwpiau Strategaeth sy'n cwmpasu pob cyfnod bywyd, o'r cyfod cyn cenhedlu hyd at oedolyn hŷn.

19, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ogystal â lleihau'r niwed i gleifion sy'n deillio o lefelau is o wasanaethau arferol.

56 Yn ei adroddiad blynyddol, amlinellodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr adroddiadau a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â COVID-19, gan gynnwys goblygiadau o ran amseroedd aros, goblygiadau i gleifion sydd ar restrau aros a sicrwydd bod cleifion yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion clinigol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd.

57 Ym mis Ionawr 2021, cafodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch asesiad effaith ansawdd o'r gwasanaethau a roes y gorau i weithredu oherwydd y cynnydd mewn achosion COVID-19. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth hefyd am oblygiadau ansawdd y gwyriadau i gyflawni Cynllun Chwarter 3-4 2020-21, a achoswyd gan don newydd o COVID-19. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu gofal canser a llawdriniaeth ddewisol frys. Roedd yr wybodaeth yn glir ac yn nodi risgiau a materion allweddol i'w huwchgyfeirio i'w hystyried gan y pwyllgor.

58 Cafodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch adroddiadau penodol ar farwolaethau a niwed. Cafodd y pwyllgor adroddiad ar farwolaethau COVID-19 mewn cartrefi gofal, sef adroddiad a gomisiynwyd gan Orchymyn Aur y Bwrdd Iechyd. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am reoli heintiau a drosglwyddir yn nosocomaidd yn ystod gofal iechyd COVID-19 a'r adolygiad am farwolaethau COVID-19 mewn gofal sylfaenol. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp goruchwylio adolygiadau marwolaethau COVID-19 hefyd er mwyn darparu sicrwydd a nodi dysg, ac mae'r grŵp wedi darparu adroddiadau i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, fel Byrddau Iechyd eraill, nid yw wedi cwblhau fframwaith safonol ar gyfer asesu niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19 eto (**Argymhelliad 5**).

59 Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei gyfarfod Pwyllgor Pobl a Diwylliant cyntaf ym mis Gorffennaf 2020. Diben y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd ar bob mater sy'n ymwneud â chynllunio staff a'r gweithlu a gwella'r amgylchedd gwaith er mwyn cefnogi a gwerthfawrogi'r staff. Mae creu'r Pwyllgor hwn wedi rhoi amser a lle i'r Bwrdd oruchwylio materion sy'n ymwneud â'r gweithlu a diwylliant (a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu).

60 Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am fetrigau'r gweithlu, gan gynnwys y cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, y cyfraddau ar gyfer cwblhau arfarniadau a chynlluniau datblygu personol, y cyfraddau trosiant, cydymffurfio â hyfforddiant ac absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dangosodd yr wybodaeth ddiweddaraf ym mis Hydref 2021 fod cydymffurfio â chynllunio swyddi a rhai meysydd hyfforddiant statudol a gorfodol (megis diogelwch tân a dadebru) yn isel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio ffyrdd gwahanol o ddarparu hyfforddiant, gan gynnwys dewisiadau rhithwir ar gyfer gwella cydymffurfio; fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn her sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae data'r Bwrdd Iechyd yn dangos bod cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn isel, hyd yn oed cyn y pandemig.

61 Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar y mentrau llesiant staff sydd ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio sesiynau gwrando a'i arolwg staff i fesur safbwyntiau'r staff a nodi pryderon. Nodir themâu â chamau gweithredu cyfatebol i'w cyflawni ac fe'u hadroddir yn yr Adroddiad Profiadau a Llesiant Cyflogeion a gyflwynir i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant bob chwarter. Yn dilyn ein Hadolygiad ar y Cyd yn 2019, dechreuodd y Bwrdd Iechyd raglen i wella diwylliant y sefydliad. Datblygwyd a lansiwyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad ym mis Hydref 2020. Ceir Cynllun Gweithredu ategol i helpu i ymwreiddio'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad ar draws y Bwrdd Iechyd. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad i werthuso i ba raddau y mae'r gwerthoedd a'r ymddygiad a ddymunir wedi eu hymwreiddio. Cynllunnir hyfforddiant ychwanegol ar gyfer timau rheoli y Grŵp Ardal Integredig a Grwpiau Gwasanaeth Clinigol i helpu arweinwyr i ymwreiddio'r gwerthoedd a'r ymddygiad ar draws eu timau. Cydnabyddir y bydd angen parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â diwylliant sefydliadol. Mae angen i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant barhau i ganolbwyntio ar sicrhau'r diwylliant staff cywir a'r gallu i staff siarad o ystyried canfyddiadau adolygiadau diweddar (gweler **paragraffau 36, 47 a 48**).

## Olrhain y cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio ac adolygu

62 Canfuom fod **y trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion Archwilio mewnol ac allanol wedi gwella, ond nad yw gwelliannau i fonitro argymhellion eraill gan sefydliadau eraill wedi eu cyflawni eto.**

63 Yn ystod chwarter cyntaf 2020-21, cynhaliodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol adolygiad o'r holl argymhellion Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru sy'n weddill. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob prif weithredwr cyfrifol i nodi'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â phob argymhelliad a oedd yn weddill. Mae hyn wedi arwain at draciwr archwilio mwy cywir, sy'n cael ei ddiweddaru cyn pob Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn rhoi sicrwydd ar y cynnydd i'r pwyllgor, (gweler **Arddangosyn 3, 2018 A5).** Caiff y cynnydd ei ddiweddaru'n fwy rheolaidd yn awr. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio a Risg i graffu'n well ar gamau gweithredu hwyr. Wrth symud ymlaen, mae'r Pwyllgor yn bwriadu gofyn i'r rhai sy'n berchen argymhellion fod yn bresennol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd pan fo aelodau'r Pwyllgor yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol, er enghraifft, ar gyfer argymhellion blaenoriaeth uchel sy'n hwyr.

64 Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi asesu'r cynnydd o'i gymharu ag argymhellion a wnaed gennym mewn asesiadau strwythuredig blaenorol; cynhwysir y cynnydd o'i gymharu ag argymhellion sydd y tu allan i gwmpas gwaith eleni yn **Atodiad 1**.

65 Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu asesu'r cynnydd o'i gymharu â gweithredu camau i fynd i'r afael ag argymhellion oddi wrth sefydliadau eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gyflawni. Nid yw argymhellion sefydliadau o'r fath wedi eu cynnwys mewn traciwr na'u coladu er mwyn galluogi

gwaith craffu rhwydd. Mae hwn yn argymhelliad sy’n weddill o’n hasesiad strwythuredig yn 2018 (gweler **Arddangosyn 4, 2018 A6**)

**Arddangosyn 4: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Strwythuredig 2018 A5**<br>Dylai’r Pwyllgor Archwilio sicrhau bod y log tracio argymhellion Archwilio yn cofnodi gwybodaeth dda fel y gall Aelodau Annibynnol adolygu a chael sicrwydd bod yr argymhellion wedi eu cwblhau pan fônt yn cael eu tynnu oddi ar y traciwr. | **Cwblhawyd**<br>Gwnaed gwaith diweddar i ddiweddaru’r cynnydd a wneir o’i gymharu â phob argymhelliad, ac mae proses ar waith i ddiweddaru’r cynnydd o’i gymharu ag argymhellion fel mater o drefn cyn pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae’r pwyllgor Archwilio a Risg yn cael y traciwr fel mater o drefn, gydag adroddiad ategol clir sy’n nodi pan fo argymhellion sydd wedi eu cau. |
| **Asesiad Strwythuredig 2018 A6**<br>Dylid ehangu’r traciwr argymhellion archwilio i gynnwys argymhellion asiantaethau allanol eraill e.e. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a’r Uned Gyflawni | **Hwyr**<br>Nodwn y gwelliannau cadarnhaol er mwyn hysbysu’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch am faterion a nodir yn adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Fodd bynnag, nid oes traciwr argymhellion archwilio ar gyfer adrodd ar y cynnydd o ran mynd i’r afael ag argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a’r Uned Gyflawni. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei bod yn hen bryd mynd i’r afael â’r argymhelliad hwn. |

# Rheoli adnoddau ariannol

66 Ystyriodd ein gwaith berfformiad ariannol, rheolaethau ariannol a threfniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol.

67 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21, ond y bydd cyflawni’r arbedion arfaethedig yn 2021-22 yn heriol. Yn gyffredinol, mae’r rheolaethau ariannol yn briodol, a gwnaed cynnydd o ran mynd i’r afael â gwendidau blaenorol, ond mae gwelliannau ychwanegol yn bosibl. Mae adroddiadau ariannol yn glir ac yn hygyrch, ond mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

68 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21, a bod ganddo gynllun ariannol clir ar gyfer darparu gwasanaethau yn 2021-22. Fodd bynnag, bydd cyflawni arbedion yn heriol ac nid oedd yn unol â'r llwybr arfaethedig ar gyfer mis 5 2021-22.**

69 Ar ddiwedd 2020-21, bodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol o fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Mae COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y refeniw a'r costau gwariant a nodir gan y Bwrdd Iechyd yn ei gynllun ariannol ar gyfer 2020-21. Yn ystod 2020-21, derbyniodd y Bwrdd Iechyd £128.6 miliwn o gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru a £11 miliwn o gyllid cyfalaf i dalu am gostau ychwanegol sy'n deillio o'r ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd £26.9 miliwn o'r cyllid, yn bennaf oherwydd nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu recriwtio'r holl weithlu ychwanegol yr oedd yn dymuno ei gael. O ganlyniad i hynny, dychwelwyd y cyllid nas defnyddiwyd i Lywodraeth Cymru.

70 Cyfyngodd y pandemig ar allu'r Bwrdd Iechyd i wireddu rhai o'r arbedion a nodir yn ei gynllun ariannol. Ym mis 12 2020-21, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni £16.2 miliwn mewn arbedion, ac roedd £4.3 miliwn ychwanegol mewn mesurau costau. Mae hyn, yn ogystal â'r diffyg cylchol arfaethedig gwreiddiol ar gyfer 2020-21, sef £13.4 miliwn, yn golygu mai diffyg o £33.9 miliwn yw man cychwyn y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllun ariannol 2021-22.

71 Bydd cyflawni arbedion arfaethedig yn heriol yn 2021-22, ac er mwyn bodloni targedau ariannol, cyfanswm y targed arbedion cylchol sy'n ofynnol dros y tair blynedd fyddai £73.2 miliwn. Hefyd, mae angen £6.2 miliwn arall yn 2022-23, fel y bydd costau cylchol y broses arfaethedig o drawsnewid gwasanaethau ysbytai yn gynaliadwy yn ariannol (ar ôl i gyllid trawsnewid Llywodraeth Cymru ddod i ben ym mis Mawrth 2022).

72 Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2021-22 yn darparu asesiad cadarn o gostau blwyddyn lawn disgwyliedig o waith ymateb i'r pandemig, gan gynnwys capasiti ychwanegol i gefnogi adferiad. Bu cynnydd o £20.2 miliwn yn nyraniad craidd y Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn dyraniad anghylchol o £11.7 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau ar gyfer rhaglenni trawsnewid y Bwrdd Iechyd (£7.0 miliwn), costau ymateb ymyraethau wedi'u targedu (£2.6 miliwn) ynghyd â grantiau cynlluniau buddsoddi i arbed (£2.1 miliwn). Hefyd, ceir dyraniadau anghylchol ychwanegol o £7.0 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2021-22 ar gyfer buddsoddi ym Meddyliwch 111 Yn Gyntaf, Gofal Sylfaenol Brys a Gofal Brys Yr Un Diwrnod. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi derbyn £16.8 miliwn ychwanegol o arian adennill gofal wedi'i gynllunio er mwyn gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau mewn rhai meysydd allweddol.

73 Nod y cynllun ariannol yw cyflawni diffyg o £20.5 miliwn erbyn diwedd 2021-22 a diffyg arfaethedig ar gyfer blwyddyn dau, cyn dychwelyd i sefyllfa o fantoli'r cyfrifon/gwarged ym mlwyddyn tri. Y diffyg sylfaenol a gynlluniwyd ar gyfer diwedd

2021-22 yw £31.4 miliwn ac mae hyn yn lleihau i £16.6 miliwn ym mlwyddyn dau, gan sicrhau y mantolir y cyfrifon yn ystod cyfnod tair blynedd y cynllun.

74 Ym mis Medi 2021, nododd adroddiad ariannol mis pump y Bwrdd Iechyd danwariant ymylol ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn. Roedd y perfformiad arbedion yn is na'r disgwyl, ac mae angen cyflymu'r broses o gyflawni arbedion ymhellach. Mae angen pwyslais clir i gynyddu arbedion cylchol er mwyn lleihau'r effaith i mewn i 2022-23 a'r diffyg sylfaenol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd gwaith sylweddol i'w wneud o hyd fel y gall y Grwpiau Ardal Integredig ddatblygu eu cynlluniau arbedion. Mae pwysau sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi golygu nad yw'r Grwpiau Ardal Integredig wedi datblygu eu cynlluniau arbedion eto, ac roedd y timau corfforaethol yn darparu cymorth ychwanegol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.

## Rheolaethau ariannol

75 Canfuom, **er bod gan y Bwrdd Iechyd reolaethau ariannol priodol ar y cyfan a'i fod yn gwneud cynnydd da i adolygu a chywiro hen rwymedigaethau cyfredol, fod cyfleoedd ychwanegol i wella rheolaethau sy'n ymwneud â gwariant ar asiantaethau staffio.**

76 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â rheolaethau ariannol effeithiol ac mae bellach wedi dychwelyd i'w gynllun dirprwyo cyn COVID-19. Mae adroddiadau i bob Pwyllgor Archwilio a Risg ar gamau tendro Sengl, colledion a thaliadau arbennig.

77 Rhoddodd adolygiad systemau ariannol Archwilio Mewnol ym mis Ebrill 2021 sicrwydd rhesymol. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar gronfeydd elusennol (yn benodol i COVID-19), cyfriflyfr cyffredinol ac asedau cyfalaf. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid diwygio rheolaethau ariannol y gronfa elusennol a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gwario rhoddion yn brydlon.

78 O'n harchwiliad o'r cyfrifon, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu a chywiro'r lefel uchel o hen rwymedigaethau cyfredol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd gwaith yn mynd rhagddo i adolygu prosesau ac egwyddorion craidd rhwymedigaethau cyfredol sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2021.

79 Yn 2020, nododd y Bwrdd Iechyd ac Archwilio Mewnol broblem o ran awdurdodi taflenni amser staff asiantaeth. Arweiniodd mynd i'r afael â'r mater hwn at weithdrefnau rheoli ariannol cryfach ym mis Rhagfyr 2020. Cyflwynir Adroddiadau Chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bellach, sy'n nodi achosion o dorri amodau awdurdodedig cyflogau amrywiol meddygol. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at unrhyw achosion pan delir locwm asiantaethau uwchben cyfradd cap cyflog Llywodraeth Cymru. Darperir gwybodaeth ar gyfer pob Grŵp Ardal Integredig, fodd bynnag, ni chofnodir y rheswm pam y cafodd cyfradd y cap cyflog ei dorri ym mwyafrif y cofnodion, ac nid yw'n bosibl sefydlu cyfanswm cost y lleoliad. Hefyd, nid yw'r wybodaeth yn amlygu a yw'r lleoliad hwn yn newydd neu a yw'n estyniad o

lleoliad blaenorol, a allai nodi meysydd sy'n her benodol o ran recriwtio. Nid yw'n glir o'r adroddiad ychwaith a ddarparwyd yr awdurdodiad cywir ar gyfer pob lleoliad. Er enghraifft, caiff rhai lleoliadau eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Grŵp Ardal Integredig yn unig, ond mae rhai yn cael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Meddygol hefyd, ac mae rhai yn cael eu hawdurdodi gan Gyfarwyddwyr eraill megis y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Gofal Acíwt. Mae'n bwysig cryfhau'r agweddau hyn ar adrodd fel y gellir goruchwylio a chraffu'n briodol ar y gwariant ar asiantaethau (gweler **Argymhelliad 6)**.

80 Cyflwyna Gwasanaeth Gwrth-dwyll y Bwrdd Iechyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ei waith a'i gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rheolaidd. Oherwydd swyddi gwag yn y tîm, mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn hwyr. Fodd bynnag, roedd y perfformiad yn gwella ar adeg ein hadolygiad, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd.

## Monitro ac adrodd

81 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu adroddiadau ariannol clir a hygyrch, er bod cyfleoedd i'w gwella.**

82 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd y perfformiad ariannol yn ei adroddiad cyllid i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid hefyd yn craffu ar berfformiad ariannol. Ochr yn ochr â chyflwyniadau llafar gan swyddogion, mae'r adroddiadau'n rhoi naratif ar y rhesymau dros orwario a thanwario, a'r ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i wireddu'r arbedion a gynlluniwyd. Cyhoeddir yr wybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd ym mhapurau'r Bwrdd.

83 Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad cyllid yn gyson ac fe'i cyflwynir yn dda. Fodd bynnag, gellid gwneud y crynodeb lefel uchel yn gliriach, i'w wneud yn haws ei ddeall i'r rhai nad oes ganddynt gefndir ariannol. Mae'r adroddiad ariannol yn amlygu lle mae risgiau posibl a lle nad yw'r perfformiad yn gyson â'r llwybr, er y byddai naratif pellach ar gamau lliniaru yn fuddiol.

# Atodiad 1

## Argymhellion blaenorol eraill

**Arddangosyn 5: asesiad o'r cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o asesiadau strwythuredig y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Ein hymateb |
|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu 2018 A7a**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i gryfhau'r trefniadau goruchwylio mewn cysylltiad â TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth drwy sicrhau y creffir ar gofnodion grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd Digidol a'r grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg, a thrwy egluro a disgrifio cysylltiadau rhwng llywodraethu gwybodaeth a TGCh, er mwyn cryfhau'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar fusnes digidol yr Ymddiriedolaeth. | **Cwblhawyd**<br>Yn 2020, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Bwyllgor Digidol a Data, sydd wedi cryfhau goruchwyliaeth mewn cysylltiad â TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth. Cynhyrchir adroddiadau i'r Bwrdd ar y prif bwyntiau. |
| **Strwythurau Pwyllgorau 2019 A2**<br>Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod strwythurau newydd yr is-bwyllgorau yn cefnogi gwaith craffu digonol ar feysydd pwysig o ran darparu gwasanaethau a busnes. Canfuom y byddai meysydd allweddol megis y Gweithlu ac Iechyd Meddwl yn elwa o gwmpas gwell. | **Cwblhawyd**<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd bwyllgor Pobl a Diwylliant newydd sydd wedi cynyddu'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Trafodir Perfformiad Iechyd Meddwl yn y pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, ac mae'r tri Grŵp Ardal Integredig yn darparu adroddiadau Ansawdd ar berfformiad Iechyd Meddwl i'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. |

| Argymhelliad | Ein hymateb |
| --- | --- |
| **Prosesau'r Pwyllgorau 2019 A2**<br>Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y broses o fynd at wraidd mater yn cael ei defnyddio'n briodol, a bod digon o amser yn cael ei neilltuo i drafod canlyniadau unrhyw broses o fynd at wraidd mater ym mhwyllgorau perthnasol y Bwrdd. | **Cwblhawyd**<br>Mae canllawiau ar ddefnyddio'r rhain wedi eu cyhoeddi ac maent bellach yn cael eu defnyddio'n briodol. |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 6: ymateb y rheolwyr**

Bydd y tabl isod yn cael ei gwblhau ar ôl i'r pwyllgor perthnasol ystyried yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr.

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Eglurder ar statws busnes gohiriedig y Bwrdd**<br>A1 Canfu ein hadolygiad nad yw pob pwyllgor yn rhoi eglurder ar statws eitemau gohiriedig busnes y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob pwyllgor yn glir ynghylch statws cyfredol eitemau busnes gohiriedig, ag amserlen ddangosol ar gyfer pryd y byddant yn cael eu dwyn yn ôl i reolaeth weithredol. | Bydd Cynlluniau Gwaith i'r Dyfodol yn gyson ar draws Pwyllgorau ac nid ydynt yn cynnwys eitemau adroddiad 'safonol' mwyach, sydd i'w derbyn ym mhob cyfarfod. Yn lle hynny, bydd Cynlluniau Gwaith i'r Dyfodol yn canolbwyntio ar bynciau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor ar sail ad hoc, am y tro cyntaf neu oherwydd eu bod wedi eu gohirio'n flaenorol.<br>O ganlyniad i'r uchod, bydd Cylchoedd Busnes y Pwyllgorau yn nodi'r adroddiadau busnes 'safonol' sy'n barod i'w derbyn yng nghyfarfod y Pwyllgor, gyda'r dyddiad cyfatebol ar gyfer eu derbyn nhw. Er hwylustod, bydd y rhain yn cael eu cynnwys o dan yr agenda caniatâd ym mhob cyfarfod. Bydd Cylchoedd Busnes y Pwyllgorau a Chynlluniau Gwaith i'r Dyfodol ar gael mewn cyfarfodydd cynllunio agenda fel y drefn weithredu safonol. | 31 Ionawr 2022 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Grŵp Ardal Integredig**<br>A2 Dirprwyir gweithgarwch trawsnewid a gwella sylweddol i Grwpiau Ardal Integredig y Bwrdd Iechyd. Yn rhan o'i adolygiad o'i fodel gweithredu, dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso capasiti a gallu pob Grŵp Ardal Integredig i gyflawni maint y newid sydd ei angen. | Mae adolygiad mewnol o fodel gweithredu Cwm Taf Morgannwg, gyda phwyslais penodol ar Grwpiau Ardal Integredig, ar y gweill ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2021. Bydd themâu'r adolygiad yn llywio argymhellion a blaengynllun. Mae cwmpas yr adolygiad yn dangos capasiti a gallu'r Grwpiau Ardal Integredig i gyflawni newid, gyda'r nod o sicrhau bod y sefydliad wedi ei strwythuro cystal â phosibl er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau.<br><br>Er mwyn cefnogi'r gweithgarwch mewnol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu ag Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad, y mae ei gwmpas i'w benderfynu o hyd a gallai fod ar ffurf dull Adroddiad Cynghori, fodd bynnag, bydd Archwilio Mewnol yn gallu targedu unrhyw feysydd penodol o'r model i sicrhau bod gan y Tîm Gweithredol ddarlun llawn o'r gallu a'r capasiti i gyflawni newid yn y Grwpiau Ardal Integredig.<br><br>Hefyd, mae tîm iCTM sydd newydd ei greu o dan y Cyfarwyddwr Gwella ac Arloesi wedi creu tair Cyfadran Gwella Ansawdd Grwpiau Ardal Integredig sy'n cynnwys staff clinigol, nyrsio, therapïau a fferylliaeth i weithredu fel canolbwynt ym mhob Grŵp Ardal Integredig, i feithrin gallu a chapasiti i newid, ac i wella a chefnogi'r Grwpiau Ardal Integredig unigol sy'n cyflawni trawsnewidiad. Cynhelir adolygiad o newid craidd a gallu rhaglenni er mwyn sicrhau cysondeb â strategaeth 2030, y disgwylir iddi | 31 Rhagfyr 2021<br><br>31 Rhagfyr 2021<br><br>Mae amserlenni adolygu Archwilio Mewnol i'w penderfynu.<br><br>Mae cyfadrannau Gwella Ansawdd Grwpiau Ardal Integredig wedi eu sefydlu.<br><br>Datblygu cymunedau | Pennaeth y Staff<br><br>Y Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Y Cyfarwyddwr Gwella ac Arloesi |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | adrodd yn gynnar yn 2022, sy'n cynnwys swyddogaethau cynllunio Grwpiau Ardal Integredig a thimau rheoli. | erbyn diwedd mis Chwefror 2022, yn barod i fynd yn fyw ym mis Mawrth 2022<br>Mae'n ofynnol cyflwyno adolygiad o newid a gallu rhaglenni ym mis Chwefror 2022. | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen Adfer Gofal wedi'i Gynllunio**<br>A3 Mae Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu gweithgarwch, lleihau amseroedd aros, a gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau. Canfuom, er y darperir gwybodaeth gryno i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, nad oedd yn ddigon clir. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddarparu rhagor o fanylion am y cynnydd cyfredol o'i gymharu â'r broses o gyflawni'r Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio o'i gymharu â'r targedau a bennwyd a'r gweithgarwch disgwyliedig. | Er mwyn cryfhau ymhellach yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, bydd adroddiadau arferol gan y Bwrdd Adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn cael eu derbyn yng nghyfarfodydd canlynol Pwyllgor y Bwrdd:<br>• Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch roi sicrwydd ar y cynlluniau i leihau amseroedd aros, a'r cynnydd yn hynny o beth.<br>• Dylai'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid roi sicrwydd ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario'r arian a ddyrennir iddo a sut y mae'n cyflawni o'i gymharu â'i dargedau a'i weithgarwch disgwyliedig.<br><br>Bydd yr adroddiadau'n darparu cynnydd cadarn o'i gymharu â'r cyflawniadau posibl allweddol ac yn nodi'n glir unrhyw risgiau a materion y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. Cyflwynir adroddiadau gan Gyfarwyddwr Interim y Rhaglen Adfer Gofal Dewisol a/neu'r Prif Swyddog Gweithredu.<br><br>Cyflawnir sicrwydd i'r Bwrdd drwy Adroddiadau'r Pwyllgor ar y Prif Bwyntiau i'r Bwrdd. | Dylai adroddiadau manwl sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf gael eu derbyn ar yr agenda fel eitem sefydlog yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Perfformiad Cynllunio o fis Ionawr 2022 ymlaen. | Y Prif Swyddog Gweithredu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Risgiau Strategol**<br>A4 Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo chwe risg i gyflawni blaenoriaethau strategol sy'n gyson â'r pedwar amcan llesiant strategol a chenedlaethau'r dyfodol a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2021-22 y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, gyda dim ond chwe risg strategol, mae'n bosibl eu bod yn rhy uchel i ganiatáu gwaith craffu ystyrlon. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau hefyd fod ei risgiau strategol yn adlewyrchu'r risgiau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol, y Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio, camau gweithredu i fynd i'r afael â statws ei fesurau arbennig a'i ymyrraeth wedi'i thargedu a'r cyfeiriad teithio i'w nodi yn y strategaeth hirdymor sy'n dod i'r amlwg. | Cynhaliwyd Sesiwn Ddatblygu'r Bwrdd ar 21 Hydref 2021 y cytunwyd ynddi fod angen adolygu'r Prif Risgiau presennol ac y bydd hyn yn gysylltiedig â datblygu Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd. Bydd Prif Risgiau'r Bwrdd Iechyd a'i Barodrwydd i Dderbyn Risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol.<br><br>Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r broses o adolygu'r Prif Risgiau, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod cydberthynas â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Blynyddol, y Cynlluniau Adfer Gofal wedi'i Gynllunio a'r Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r Statws Mesurau Arbennig, yn ogystal â'i gyfeiriad strategol tymor hwy.<br><br>Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried sut y caiff y Prif Risgiau eu disgrifio a'u diffinio fel bod digon o fanylion i ganiatáu gwaith craffu cadarn yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd (a dderbynnir gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau o ran risgiau strategol) yn triongli perfformiad, risg a sicrwydd fel y bo hynny'n bosibl. | 31 Mawrth 2022<br><br>(Diwedd y flwyddyn galendr yw amserlen Ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a bydd y gweithgaredd hwn yn deillio o'r allbynnau hynny) | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Y niwed Uniongyrchol ac Anuniongyrchol sy’n deillio o COVID-19**<br>A5 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith penodol o ran marwolaethau a niwed mewn cysylltiad â COVID-19. Fodd bynnag, fel Byrddau Iechyd eraill, nid yw wedi cwblhau fframwaith safonol i gefnogi’r asesiad o niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy’n gysylltiedig â COVID-19 eto. Dylai’r Bwrdd Iechyd lunio fframwaith ar gyfer asesu’r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy’n deillio COVID-19, a sicrhau bod y fframwaith ac adroddiad cysylltiedig sy’n amlinellu materion allweddol yn cael eu monitro gan grwpiau gweithredol strategol, priodol a’u bod yn adrodd ar y Bwrdd neu un o’i bwyllgorau. | Derbyniodd y Bwrdd Iechyd fersiwn ddiweddaredig o Wales National Framework - Management of Patient Safety Incidents following Nosocomial Transmission ar 16 Tachwedd 2021. Mae’r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys pedwar opsiwn ac, ar hyn o bryd, mae’r Bwrdd Iechyd yn ystyried yr opsiwn y bydd yn dewis ei fabwysiadu a’i symud ymlaen i asesu’r niwed sy’n gysylltiedig â COVID-19.<br>Yna, bydd yr opsiwn a ddewisir yn cael ei ystyried yn y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ym mis Rhagfyr 2021 a’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2022.<br><br>Caiff adroddiadau eu derbyn a’u monitro drwy’r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.<br><br>Darperir adroddiadau i’r Bwrdd drwy Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar y Prif Bwyntiau i’r Bwrdd. | 31 Ionawr 2022 | Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol<br><br>Y Cyfarwyddwr Meddygol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cyflog Amrywiol Meddygol**<br>A6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd amrywiannau pan delir locwm asiantaethau uwchben cyfradd cap cyflog Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rheswm dros dalu cyfradd sy'n uwch na'r cap cyflog wedi ei gofnodi ym mwyafrif y cofnodion. Nid yw'n glir ychwaith a ddilynwyd yr awdurdodiad cywir ar gyfer pob lleoliad. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r adroddiad i roi sicrwydd bod y gymeradwyaeth gywir wedi ei chyflawni, ynghylch cyfanswm costau'r penodiad, a yw'r lleoliad yn estyniad o leoliad blaenorol, a nodi'r rheswm pam fo'r cap cyflog wedi ei dorri. | Cofnodir y rheswm dros gyflawni toriadau yn y systemau sy'n cofnodi gweithwyr asiantaeth a gyflogir, felly bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau o hyn ymlaen.<br><br>Mae colofn dde'r adroddiad yn cofnodi'r broses awdurdodi. Mae hyn yn gysylltiedig â'r lefelau o gymeradwyaeth sydd eu hangen i fynd y tu hwnt i'r cap. Mae teitlau'r swyddi a gofnodir yn dangos pwy sydd wedi awdurdodi'r gyflogaeth. Gwneir hyn yn fwy eglur mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.<br><br>Ar yr adeg pan adroddir am awdurdodi cyfraddau, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cofnodi cyfanswm cost y gyflogaeth. Ni fyddai'r data hyn ar gael nes y bydd y gyflogaeth wedi ei chwblhau o ystyried yr amrywioldeb o ran y rhesymau dros gyflogi a deiliadaeth.<br><br>Ym mhob adroddiad yn y dyfodol, bydd yn cynnwys cadarnhad a yw'r gyflogaeth yn estyniad neu'n lleoliad newydd. | Chwefror 2022 | Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.